| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** **dros Barth y Cyhoedd** | **Y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |

**Teitl: Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 - Adroddiad Dirprwyo Awdurdod**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 I'r Aelodau ystyried mabwysiadu deddfwriaeth newydd a dirprwyo pwerau ychwanegol i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae deddfwriaeth ddiweddar gan Llywodraeth Cymru ar ffurf Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn rhoi pwerau ychwanegol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru i ddelio â'r mater o bori anghyfreithlon a gadael ceffylau.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Gweithredu (gweler Atodiad 1) a bydd canllawiau anstatudol yn cael eu datblygu ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a'u cyhoeddi i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yn dod i rym. Bydd canllawiau o'r fath yn cynnwys y broses a'r dull gweithredu yr awgrymir i Awdurdodau Lleol eu cymryd wrth benderfynu a yw perchennog yn debygol o ddod ymlaen i hawlio ceffyl.

2.3 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am fabwysiadu'r Ddeddf a'r dirprwyo awdurdod cysylltiedig. Mae materion polisi a fydd yn delio â sut bydd y pwerau yn cael eu defnyddio yn ymarferol yn destun trafodaeth barhaus a byddwn yn ymgynghori ar y rhain ar wahân.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod: -

- Y Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn cael ei mabwysiadu gan yr Awdurdod hwn;
- Bod y pwerau o dan y Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd;
- Rhoi awdurdod dirprwyedig yn awtomatig i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw Reoliadau dilynol a wneir o dan y Ddeddf.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Efallai bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r problemau a wynebwyd gan nifer o Awdurdodau Lleol De Cymru wrth ddelio â hyn a elwir yn 'bori anghyfreithlon' gan geffylau a merlod sydd wedi derbyn sylw sylweddol yn y cyfryngau.

4.2 'Pori anghyfreithlon' yw'r term sydd wedi cael ei fabwysiadu i ddisgrifio arferion perchnogion anghyfrifol sy'n gadael i anifeiliaid bori ar dir heb ganiatâd meddiannydd y tir.

4.3 Rydym wedi cael llai na 10 o gwynion o broblemau pori anghyfreithlon yn Sir Ddinbych dros y 12 mis diwethaf er bod cydweithwyr mewn awdurdodau cyfagos yn dweud bod y sefyllfa yn eu hardal yn cynyddu. Rydym o'r farn fod gallu defnyddio'r pwerau hyn i ddelio â nhw mewn ffordd fwy effeithlon gynorthwyo gyda gorfodaeth.

4.4 Cyflwynwyd y Mesur Rheoli Ceffylau (Cymru) gan y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol a Bwyd ar 14 Hydref 2013. Roedd y Mesur yn ceisio delio â'r problemau o bori anghyfreithlon a gadael ceffylau. Mae gan y mesur Femorandwm Esboniadol (ME).

4.5 Cynigiodd y Mesur ateb Cymru gyfan er mwyn galluogi pob Awdurdod Lleol i gyflwyno dull cyson o gael gwared ar yr effeithiau mae pori anghyfreithlon a gadael ceffylau a merlod yn ei gael ar dirfeddianwyr, y diwydiant amaethyddol a chymunedau ledled Cymru. Mae'n sefydlu pwerau i Awdurdodau Lleol i ymafael, impowndio, gwerthu neu gael gwared ar geffylau mewn modd arall oddi ar dir yn eu hardal, heb awdurdod cyfreithlon ac i ddarparu Awdurdodau Lleol gyda'r grym i adennill costau lle gellir dod o hyd i'r perchennog neu'r person sy'n gweithredu ar ran y perchennog.

4.6 Mae'r ME yn amlinellu'r prif broblemau sy'n gysylltiedig â phori anghyfreithlon a cheffylau a merlod yn cael eu gadael fel a ganlyn:

- y risg i ddiogelwch y cyhoedd pan fo ceffylau crwydr ar briffyrdd gan achosi cau ffyrdd a gwyriadau i fodurwyr a damweiniau posibl;
- y niwsans i gymunedau (ar dir cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys parciau, meysydd chwarae a mannau cyhoeddus eraill);
- yr effaith ar y diwydiant amaethyddol pan fo tir a ffensys yn cael eu difrodi gan adael digon o dir bori ar gyfer stoc y tirfeddiannwr ei hun;
- yr effaith amgylcheddol pan fo tir yn cael ei orbori a thir yn cael ei sathru;
- pryderon lles yn gysylltiedig â'r darganfyddiad o geffylau nad oes neb yn gofalu amdanynt a cheffylau wedi marw neu sy'n llwgu; a
- y faich ariannol sylweddol i'r rhai sy'n gorfod delio â'r broblem. Amcangyfrif cyfredol y gost i Awdurdodau Gorfodi (Gwasanaeth yr Heddlu, Awdurdodau Lleol, RSPCA a'r Gwasanaeth Tân) ers mis Tachwedd 2011 yw tua £1.2 miliwn.

4.7 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, ers mis Tachwedd 2011, bod mwy na 1,500 o achosion o geffylau rhydd, wedi'u gadael a cheffylau yn pori'n anghyfreithlon wedi eu cofnodi yn Ne Cymru gan Heddlu De Cymru.

4.8 Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y Mesur yn dangos eu penderfyniad i Gymru i fod yn rhydd o ddigwyddiadau ar raddfa fawr o bori anghyfreithlon a gadael ceffylau.

4.9 Cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad y Mesur Rheoli Ceffylau (Cymru) ar 10 Rhagfyr 2013 a'i gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol. Cafodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014, a daeth i rym ar 28 Ionawr 2014.

4.10 Gan fod hon yn ddeddfwriaeth newydd, mae'n rhaid dilyn proses gyfreithiol weinyddol sy'n golygu mabwysiadu'r Ddeddf a rhoi awdurdod dirprwyedig i alluogi Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych i gyflawni darpariaethau a swyddogaethau'r ddeddfwriaeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw perchnogion sy'n gadael i'w ceffylau bori'n anghyfreithlon yn talu am y tir ac fel arfer byddant yn gadael y tir mewn cyflwr gwael gan gynyddu'r costau i dirfeddianwyr (o ran trwsio a/ neu amnewid y glaswellt). Gall yr arfer hwn, felly, gael effaith andwyol ar berchnogion tir lleol ac yn ei dro yn yr economi leol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol uniongyrchol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r Ddeddf a chyhoeddi awdurdod dirprwyedig, sef diben yr adroddiad hwn. Gall materion polisi ar y defnydd o'r pwerau ac amlder achosion gael goblygiadau cyllidebol sy'n anodd eu rhagweld a'u mesur.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i gwblhau gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Mae'n annhebygol iawn bydd y rheoliadau hyn yn cael effaith niweidiol ar gydraddoldeb. Ar ben hynny, mae'r ddeddfwriaeth a'r polisi wedi cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru i liniaru'r risgiau a chanlyniadau unrhyw effeithiau niweidiol, pe baent yn digwydd. Mae effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb, y tu hwnt i amddiffyn hawliau dynol unigolyn hefyd yn annhebygol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori yn helaeth fel rhan o'r broses a arweiniodd at y ddeddf.

8.2 Yn fewnol, o ystyried eu cyfranogiad yn ystadau amaethyddol Sir Ddinbych, mae cydweithwyr yn yr adran Brisio ac Ystadau wedi cael gwybod am gynnwys yr adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ran mabwysiadu'r Ddeddf, byddai unrhyw gostau yn y dyfodol yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Materion risg i enw da posibl (e.e. beirniadaeth am fethu â chymryd camau) wedi eu nodi pe bai'r Cyngor yn methu â mabwysiadu'r ddeddfwriaeth gan na fyddai mewn sefyllfa i ystyried defnyddio'r pwerau mewn amgylchiadau perthnasol. Efallai hefyd y byddai risg o hawliadau yn erbyn y Cyngor, er enghraifft, pe baem yn methu â mabwysiadu ac, felly, yn methu cymryd camau.

10.2 Mae yna hefyd risg ariannol wrth arfer y pwerau a roddir gan y ddeddfwriaeth hon yn arbennig mewn perthynas â chostau milfeddygol, lifrai a chludiant. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau ychwanegol gan fod y ddeddfwriaeth yn rhoi pŵer, nid dyletswydd ar Awdurdodau Lleol. Ceir darpariaethau adennill costau yn y ddeddfwriaeth, fodd bynnag, mae profiad wedi dangos, yn aml o ganlyniad i anawsterau wrth geisio dod o hyd i berchnogion, nad yw adennill costau yn opsiwn. O ganlyniad, mae cynllun wrth gefn yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector i liniaru rhai o'r costau. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno i'w archwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 ac Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Atodiad 1

| PAPURAU CEFNDIR | LLEOLIAD | GWYBODAETH GWEFAN |
|---|---|---|
| Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 | Gwefan Llywodraeth Cymru | http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/horses/control-horses-wales-act |
| Mesur Rheoli Ceffylau (Cymru) | Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru | www.assemblywales.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=250941&ds=10/2013 |
| Crynodeb o'r Mesur: Rheoli Ceffylau (Cymru) Hydref 2013 | Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru | www.assemblywales.org/13-074.pdf |
| Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Effaith Rheoliadol Asesu a Nodiadau Esboniadol | Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru | http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9518-em-r-e.pdf?langoption=3&ttl=PRI-LD9518-EM-R%20-%20Control%20of%20Horses%20(Wales)%20Bill%20-%20REVISED%20EXPLANATORY%20MEMORANDUM |